GORCHYMYN CYNGOR BWRDEISTREF SIROL PEN-Y-BONT AR OGWR (LLEOEDD PARCIO ODDI AR Y STRYD) (CYDGRYNHOI) 2024 GORCHYMYN DIWYGIO (RHIF 1) 2026

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr (y cyfeirir ato o hyn ymlaen fel "y Cyngor"), wrth arfer ei bwerau o dan Adrannau 32, 35 a Rhan IV o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 fel y'i diwygiwyd ("Y Ddeddf") a'r Ddeddf Rheoli Traffig 2004 a'r holl bwerau galluogi eraill ac ar ôl ymgynghori â Phrif Swyddog yr Heddlu yn unol â Rhan III Atodlen 9 o'r Ddeddf **DRWY HYN YN GWNEUD Y GORCHYMYN CANLYNOL** i ddiwygio Gorchymyn Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-Y-Bont Ar Ogwr (Lleoedd Parcio Oddi Ar y Stryd) (Cydgrynhoi) 2024, ("Gorchymyn 2024"), fel a ganlyn:-

1. Mae Atodlen 1, Colofn 1, o Orchymyn 2024 wedi'i hamrywio trwy ddileu'r geiriad canlynol:

"Meysydd Parcio
Gogledd a De
Hillsboro Place,
The
Portway,
Porthcawl
CF36
Cynllun T1784-07"

a mewnosod y geiriad canlynol yn Atodlen 1, Colofn 1, Gorchymyn 2024, fel ei fod wedi'i ymgorffori yng Ngorchymyn 2024 o'r dyddiad y mae'r Gorchymyn hwn yn dod i rym:

"Maes Parcio
De Hillsboro Place,
The
Portway,
Porthcawl,
CF36
Cynllun T1784-07 Rev 1"

2. Mae Atodlen 2, Colofn 1, o Orchymyn 2024 wedi'i hamrywio trwy ddileu'r geiriad canlynol:

"Meysydd Parcio
Gogledd a De
Hillsboro Place,
Porthcawl,
CF36
Cynllun T1784-07"

a mewnosod y geiriad canlynol yn Atodlen 2, Colofn 1, Gorchymyn 2024, fel ei fod wedi'i ymgorffori yng Ngorchymyn 2024 o'r dyddiad y mae'r Gorchymyn hwn yn dod i rym:

"Maes Parcio
De Hillsboro Place,
Porthcawl,
CF36
Cynllun T1784-07 Rev 1"

3. Dirymu'r Cynllun Gorchymyn a nodir yng Ngholofn 1 yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn a mewnosod y Cynllun Gorchymyn diwygiedig a nodir yng Ngholofn 2 yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn yn ei le.

4. O'r dyddiad y mae'r Gorchymyn hwn yn dod i rym, mae Cynllun Gorchymyn **T1784-07 Rev 1** wedi'i ymgorffori yn Atodlen 3 o Orchymyn 2024

5. Ac eithrio fel y maent wedi'u hamrywio gan y Gorchymyn hwn, bydd gweddill darpariaethau Gorchymyn 2024 yn parhau ac yn cael eu rhoi ar waith yn llawn.

6. I'r graddau y mae unrhyw ddarpariaeth yn y Gorchymyn hwn yn gwrthdaro â darpariaeth sydd wedi'i chynnwys mewn Gorchymyn a wnaed neu sydd ag effaith fel pe bai wedi'i wneud dan y Ddeddf ac sy'n bodoli ar yr adeg pan ddaw'r Gorchymyn hwn i rym ac sy'n gosod cyfyngiad neu waharddiad ar gerbydau ar hyd y darnau o ffyrdd a nodir yn Atodlen y Gorchymyn hwn y bydd darpariaeth o'r Gorchymyn hwn yn parhau.

7. Bydd y cyfyngiadau, gwaharddiadau a gofynion a orfodir gan y Gorchymyn hwn yn ychwanegol at, a heb randdirymu, unrhyw gyfyngiad neu ofynion a osodir gan unrhyw reoliad a wnaed neu sydd ag effaith fel pe bai wedi'i wneud dan "Ddeddf 1984" neu gan neu dan unrhyw ddeddfiad arall.

8. Bydd unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at unrhyw ddeddfiad yn cael ei ddehongli fel cyfeiriad at y deddfiad hwnnw fel y'i diwygiwyd, ei gymhwyso, ei gydgrynhoi, ei ailddeddfu gan unrhyw ddeddfiad dilynol neu fel pe bai'n cael effaith yn rhinwedd unrhyw ddeddfiad dilynol.

9. Bydd Deddf Dehongli 1978 yn berthnasol i'r Gorchymyn hwn fel y mae'n berthnasol i'r dehongliad o Ddeddf Seneddol.

10. Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar **30/10/2026** - a gellir ei ddyfynnu fel Gorchymyn Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr (Lleoedd Parcio Oddi ar y Stryd) (Cydgrynhoi) 2024 Gorchymyn Diwygio (Rhif 1) 2026.

Dyddiad:14/10/2026

Rhoddwyd **SÊL GYFFREDIN**)
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL PEN-Y-BONT AR OGWR)
yma ym mhresenoldeb:-)

Llofnodwr Awdurdodedig: [redacted]

ATODLEN

Colofn Un		**Colofn Dau**	
Cynllun Gorchymyn	Dyddiad	Cynllun Gorchymyn	Dyddiad
T1784-07	29.11.2024	T1784-07 Rev 1	14.10.2026

FFIN Y MAES PARCIO / CAR PARK BOUNDARY: **HILLSBORO**



© Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2026 Arolwg Ordnans AC0000819894
© Crown copyright and database rights 2026 Ordnance Survey AC0000819894

Maint y map hwn ydy 281,597 i 176,619 o fetrau tua'r dwyrain a 282,114 i 176,898 o fetrau tua'r Gogledd gan ddefnyddio Grid Cenedlaethol Prydain (EPSG 27700).

The extent of this map is 281,658 to 176,685 metres eastwards and 282,055 to 176,901 metres northwards using the British National Grid (EPSG 27700).



GORCHYMYN CYNGOR BWRDEISTREF SIROL PEN-Y-BONT AR OGWR (LLEOEDD PARCIO ODDI AR Y STRYD)(CYDGRYNHOI) 2024 GORCHYMYN DIWYGIO (RHIF 1) 2026

BRIDGEND COUNTY BOROUGH COUNCIL (OFF- STREET PARKING PLACES) - (CONSOLIDATION) ORDER 2024 (AMENDMENT NO. 1) ORDER 2026

DYDDIAD
DATE
14/10/2026

GRADDFA
SCALE
1:1300

RHIF CYFEIRNOD
REFERENCE NUMBER
T1784-07 Rev 1